

P-04-533 Cynllunio Amgylcheddol ar gyfer Safleoedd Tyrbinau Gwynt ar Raddfa Fach

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi grym i'r gyfraith gynllunio a ganlyn. Byddai'r cyfreithiau yn gosod amodau ar bob cais ar gyfer tyrbinau gwynt nad yw'n rhan o ddatblygiad fferm wynt masnachol. Gofynnwn yr hyn a ganlyn: 1) Nad yw tyrbinau o'r fath yn fwy na 47 metr o hyd, hyd at flaen y llafn. 2) Bod gofyn i 50% o'r preswylwyr dros 16 oed sy'n byw o fewn 3km i'r safle arfaethedig ddarparu llofnod i ddangos eu bod yn cymeradwyo'r cynllun. 3) Bod pob tyrbinau nad yw'n rhan o ddatblygiadau ffermydd gwynt wedi'i gyfyngu i gyfnod gweithredol o rhwng 06.00 a 21.00 er mwyn gwarchod adar a mamaliaid sy'n effro yn ystod y nos. 4) Y caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei chynnig a'i darparu i bob preswylfa o fewn 4km i safle arfaethedig, ac y cynigir cyfle iddynt gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn cydymffurfio â chonfensiwn Aarhus. 5) Y dylai pob tyrbinau gael ei adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu 100% a bod yr holl sylfeini'n cael eu codi ar ddiwedd y gweithrediadau.

Prif ddeisebydd: **GALAR**

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: **4 Chwefror 2014**

Nifer y llofnodion: **433**